Chwaraeon RhCT
Sport RCT

12 Diwrnod y Nadolig 2021 - 6ed enillydd

# Clwb Rygbi Tylorstown - Timau i Blant Bach ac Iau

Sefydlodd Clwb Rygbi Tylorstown dîm ar gyfer plant 13 oed neu’n iau ym mis Chwefror eleni a'r bwriad oedd sefydlu timau ar gyfer grwpiau oedran eraill. Erbyn hyn, mae 168 o chwaraewyr rhwng 5 ac 14 oed ac mae nifer fawr yn aros i ymuno â'r clwb.

Mae'r clwb wedi'i leoli mewn ardal ddifreintiedig, ac mae effaith gadarnhaol y clwb ar fywydau'r chwaraewyr i'w gweld yn glir. Mae criw gwych o wirfoddolwyr yn cefnogi'r timau a'r chwaraewyr. Sefydlodd y clwb bartneriaeth gyda 'Play It Again Sport' i gynnig cynllun ailgylchu cit. Roedd y cynllun yn golygu bod modd darparu cit ac offer i'r chwaraewyr iau am bris is.

